16

Llanarmon-yn-îâl

Tir amaeth, rhostir gyda golygfeydd pell

Pellter: 7.2km / 4.5 milltir

Amser: 3 awr

Parcio a chychwyn: Ychydig o le parcio ar y ffordd yn Llanarmon. Peidiwch â pharcio ym maes parcio'r dafarn heb ganiatâd y tafarnwr

Cyf. Grid: SJ190562, Map OS Explorer 265

Graddfa: canolig - mymryn o ddringo a disgyn dros dir agored

Cyfleusterau: The Raven Inn, Llanarmon, Hideaway Café, Llynnoedd Gweryd

Rolling farmland and moorland with wide views

Distance: 7.2km / 4.5 miles

Time: 3 hours

Parking and start: Limited roadside parking in Llanarmon or in the pub with the landlord's permission

Grid ref: SJ190562, Explorer map 265

Grade: Moderate - some ascent and descent over open ground

Facilities: The Raven Inn, Llanarmon; Hideaways Café, Gweryd Lakes



Y Daith Gerdded

1. O borth yr eglwys sydd gyferbyn â The Raven Inn, troi i'r chwith ar hyd y ffordd gan fynd heibio'r siop sy ar y dde. Mynd ymlaen ble mae'r ffordd yn troi tua'r chwith gan ddilyn arwydd Llandegla. Wrth yr arwyddbost ar y llaw dde - arwydd 'Nurse Fawr'-, croeswch y gamfa garreg a dilyn y llwybr drwy giât fach bren i stad o dai. Troi i'r chwith a cherdded ar hyd y ffordd heibio'r tai ac i'r pen pellaf, gan anwybyddu'r ffordd ar y dde. Cymrwch y llwybr sy wrth y postyn lamp sy ar law dde'r tŷ olaf. Dilynwch y llwybr hwn dros gamfa, croesi camfa arall ar ben y llwybr ac i mewn i gae. Cerddwch gan gadw ffin y cae ar eich llaw dde a chroesi'r gamfa nesaf sy o'ch blaen. Cerddwch dros y cae nesaf a thros y gamfa amlwg sy o'ch blaen wrth y ffordd. Croeswch y ffordd hon a dilyn y lôn sy o'ch blaen, arwydd 'Nurse Fawr' a 'Llynnoedd Gweryd'. Ewch ymlaen i fyny'r lôn hon am 1.2km i Lynnoedd Gweryd. (Os am baned, ewch yn eich blaen ac i'r Hideaway Café).

2. Yn fuan ar ôl mynd heibio i dŷ mawr ar yr ochr chwith, trowch i'r dde dros gamfa i ddarn bach o goedlan. Croesi'r ail gamfa a throi i'r chwith gan ddilyn llwybr wrth ymyl cae mawr. Bydd prif Lyn Gweryd ar y llaw chwith o danoch. Ar ôl pasio'r llyn, dilynwch y ffens i fyny'r bryn i dir agored arall. Pan ddowch i gamfa yn y ffens, trowch i'r dde i ymuno â Llwybr Clawdd Offa (LLCO) (arwydd y fesen wen). Dringwch yn serth i ddechrau. Pan fydd y tir yn fwy gwastad, cadwch y ffens ar eich llaw chwith, croeswch y gamfa sy ar y chwith a cherdded ymlaen ar hyd LLCO i'r rhostir. Ewch i lawr yn raddol wrth ymyl ffens ac wedyn i lawr grisiau nes dod at lwybr llydan wrth y tŷ. Croeswch y gamfa i'r ffordd, troi i'r chwith ac yna i'r dde bron ar unwaith a thros y gamfa, arwydd 'Clwyd Gate'. Dilynwch LLCO ar hyd y llwybr llydan o gwmpas y bryn am 1km (gan groesi camfa/giât) a chyrraedd mynegbost 'Clwyd Gate'. Croeswch y gamfa a throi i'r dde gan ddringo i fyny'r llwybr amlwg at gamfa arall ar eich llaw chwith. Croeswch y gamfa a dilyn LLCO ymlaen at fynegbost amlwg.

3. Trowch yn sydyn i'r dde yma, (arwydd Llanarmon-yn-iâl, gan adael LLCO ac anelu tua'r giât. Cyn cyrraedd y giât hon, trowch i'r chwith i lwybr cul yn syth ar ôl y garreg fawr -'y Garreg Lwyd'. Cerddwch i'r gamfa ysgol o'ch blaen. Croeswch hon a dilyn y llwybr i'r dde i groesi camfa arall. Trowch i'r chwith a dilyn y ffens ar i

Llanarmon-yn-îâl

AHNE Bryniau Clwyd Clwydian Range AONB

lawr, gan groesi camfa arall a dal ymlaen gan ddilyn y ffens i lawr y cae hir. Croeswch y gamfa sy yn y ffens o'ch blaen a chroesi'r cae nesaf i gamfa arall. Croeswch y gamfa hon a dilyn y llwybr i lawr y bryn serth gan ddilyn arwyddion a mynd heibio tai at y gamfa. Croeswch hon ac ewch i lawr y grisiau sy ar y dde a dros y nant. Trowch i'r chwith ac i lwybr llydan gan gerdded heibio'r tŷ sydd ar eich llaw dde. Wrth y llyn, tueddwch i'r dde i ymuno â dreif y fferm ac yna dilynwch y dreif oddi wrth y tŷ. Cyn y giât, croeswch y gamfa sy ar y chwith ac i mewn i gae. Dilynwch yr arwydd dros y cae a chroesi camfa i'r ffordd. Trowch i'r dde gan fynd heibio capel Rhiw Îâl ar y llaw dde. Dilynwch y llwybr hwn yn ôl i bentref Llanarmon.

The Walk

1. From the church porch, opposite the Raven Inn, turn left along the road passing the shop on the right. Continue where the road bears left, signed Llandegla. At the fingerpost on the right, signed Nurse Fawr, cross a stone stile and follow the path going through a small wooden gate until you emerge onto a housing estate cul-de-sac. Turn left and walk along the road past housing to another cul-de-sac at the far end, ignoring a road to the right. Take a path beside a lamppost to the right of the last house. Follow this path over a stile and cross a second stile at the end into a field. Walk along right-hand field edge and cross next stile. Continue along next field edge and cross stile ahead. Then walk across the next field to visible stile beside the road. Cross the road and follow the lane opposite, signed Nurse Fawr and Gweryd Lakes. Continue up this lane for 1.1km to Gweryd Lakes. (For refreshments continue on the track here to the Hideaway Café).

2. Soon after passing a large house on the left turn right over a stile into a narrow strip of woodland. Cross a second stile to leave the woodland and turn left and follow path along the edge of a very large field, walking above the main lake. Beyond the lake follow the fenceline uphill onto more open ground. At a stile in the fenceline turn right to join Offa's Dyke Path (ODP), marked with white acorns. Climb steeply at first. Where the gradient levels cross a stile on the left and continue along ODP across the moorland. Gradually descend beside a fence down to a track beside a house. Cross the stile and turn left along the track then immediate right over another stile, signed Clwyd Gate. Follow ODP along this track around the hillside crossing a stile/gate for 1km until you reach a fingerpost, signed Clwyd Gate. Cross the stile and turn right to walk up clear track until you reach another stile on the left. Cross the stile and follow ODP ahead to a fingerpost.

3. Turn sharply right here, signed Llanarmon-yn-iâl, leaving ODP and heading towards a gate. Before the gate turn left onto a narrow path, just after a low boulder, and walk to a ladder stile ahead. Cross and follow path right to cross another stile. Turn left and follow the fence down, crossing another stile and continuing to follow the fence down a long field. Cross a stile in the fence ahead and cross the next field to another stile. Cross stile and follow path steeply downhill following waymarkers past houses to a stile. Cross and go down steps to the right and over a small stream. Turn left onto a track, walking past the house on the right. At a pond bear right to join the farm drive and then follow the drive away from the house. Before a gate cross the stile on the left into a field. Follow the waymarker across the field and cross a stile onto the road. Turn right, passing Rhiw Îâl chapel on the right, and follow this road back into Llanarmon.

*Mae **The Raven Inn** yn darparu bwyd cartref yn y bar neu'r bwyty, ac yn cynnig Gwely a Brecwast. Ar agor o ganol dydd i'r archebion olaf saith niwrnod yr wythnos. Ffôn: 01824 780787; gwefan: www.theraveninn.com*

***Hideaways Café**, Llynnoedd Gweryd yn darparu crempog Iseldiraidd, pryd ysgafn a phaned. Ar agor 7 niwrnod bob wythnos yn ystod gwyliau'r haf, anamlach yn y gaeaf. Ffôn: 01824 780230; gwefan: www.gwerydlakes.co.uk*

***The Raven Inn** serves home-cooked food in the bar or restaurant and also offers Bed and Breakfast. Open from midday - last orders, 7 days a week. Tel: 01824 780787; website: www.theraveninn.com*

***Hideaways Café**, Gweryd Lakes serves Dutch pancakes, light meals & teas. Open 7 days a week during the summer holidays with reduced hours during the winter. Tel: 01824 780230; website: www.gwerydlakes.co.uk*

Llanarmon-yn-Îâl

Yn y 18fed a'r 19eg ganrif roedd y pentref tawel hwn yn lle prysurach o lawer. Yn ogystal â'r mwyngloddiau plwm a'r chwareli calchfaen, roedd yn bentref pwysig i'r porthmyn a arferai orffwys eu hanifeiliaid yma ar eu ffordd i'r farchnad. Ar un adeg roedd yma ddeg o dafarndai'n gwasanaethu porthmyn a mwynwyr. Hanner can mlynedd yn ôl, ar dir The Raven Inn, daethpwyd o hyd i nifer o bedolau ychen, sef dau fwa metel i bedoli anifeiliaid fforchdroed.

Nodwedd amlwg yr ardal yw'r brigiadau o graig galchfaen a'r ogofeydd. Caed fflintiau mewn ogof ar gyrion y pentref, sy'n awgrymu iddi gael ei defnyddio gan bobl tua 5,000 o flynyddoedd yn ôl. Tybir i'r Tywysog lleol godi caer ar ac o gwmpas y brigiad mawr o gerrig a elwir yn Domen y Faerdre sy'n agos i ganol y pentref.

Llanarmon-yn-Îâl

This peaceful village was much busier in the 18th and 19th centuries. In addition to the numerous lead mines and stone quarries, it was also an important drove village where herds of cattle were rested en route to market. At one time it boasted ten inns to serve the needs of the passing drovers and miners! Many ox cues, twin arcs of metal used to shoe cloven-footed animals, were found when the ground by the Raven Inn was dug up 50 years ago.

The craggy limestone outcrops and caves are a feature of the area. Flints were found in a cave on the edge of the village, which suggests it was used by humans 5000 years ago. It is thought that the local Welsh lord built a fortification on and around one large outcrop, known as Tomen y Faerdre, near the village centre.